# Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014

**2014 dccc 6**

*Cyffredinol*

### 15 Troseddau gan gyrff corfforaethol

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan gyflawnir trosedd o dan y Ddeddf hon gan gorff corfforaethol.

(2) Os profir bod y drosedd wedi ei chyflawni â chydsyniad neu gydgynllwyn y canlynol, neu ei bod i'w phriodoli i esgeulustod ar ran y canlynol—

(a) unrhyw gyfarwyddwr, rheolwr neu ysgrifennydd y corff corfforaethol, neu

(b) unrhyw berson a oedd yn honni ei fod yn cyflawni rôl o'r fath,

mae'r cyfarwyddwr, y rheolwr, yr ysgrifennydd neu'r person hwnnw a oedd yn honni cyflawni rôl o'r fath (yn ogystal â'r corff corfforaethol) yn euog o'r drosedd ac yn atebol i gael achos yn ei erbyn a chael ei gosbi'n unol â hynny.

(3) Mae'r cyfeiriad at gyfarwyddwr, rheolwr neu ysgrifennydd y corff corfforaethol yn cynnwys cyfeiriad at—

(a) unrhyw swyddog tebyg yn y corff;

(b) pan fo'r corff yn gorff corfforaethol y mae ei faterion yn cael eu rheoli gan ei aelodau, unrhyw swyddog neu aelod o'r corff hwnnw.

### 16 Darpariaeth ategol

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, wneud unrhyw ddarpariaeth gysylltiedig, ganlyniadol, ategol, drosiannol, ddarfodol neu ddarpariaeth arbed y maent yn eu hystyried yn briodol at ddibenion rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth sydd wedi ei gwneud gan, neu o dan, y Ddeddf hon, neu mewn cysylltiad â hynny.

(2) Caiff gorchymyn o dan yr adran hon addasu'r deddfiad hwn neu unrhyw ddeddfiad arall.

## 17 Gorchmynion a rheoliadau

(1) Mae unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Ddeddf hon yn arferadwy drwy offeryn statudol ac yn cynnwys pŵer i—

(a) gwneud unrhyw ddarpariaeth gysylltiedig, ganlyniadol, ategol, drosiannol, ddarfodol neu ddarpariaeth arbed y maent yn eu hystyried yn angenrheidiol neu'n hwylus at ddibenion y Ddeddf hon, neu mewn cysylltiad â hi, a

(b) gwneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol.

(2) Nid yw offeryn statudol sy'n cynnwys (ar ei ben ei hun neu ar y cyd â darpariaethau eraill)—

(a) gorchymyn o dan adran 2,

(b) rheoliadau o dan adran 7,

(c) gorchymyn o dan adran 14, neu

(d) gorchymyn o dan adran 16 sy'n cynnwys darpariaeth sy'n ychwanegu at destun Deddf Seneddol neu Fesur neu Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn diwygio'r testun neu yn ei hepgor,

i gael ei wneud nes bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo.

(3) Mae unrhyw offeryn statudol arall sy'n cynnwys gorchymyn neu reoliadau o dan y Ddeddf hon i fod yn ddarostyngedig i'w ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

## 18 Dehongli

Yn y Ddeddf hon, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall—

mae "addasu" ("*modify*"), mewn perthynas â deddfiad, yn cynnwys diwygio neu ddiddymu;

mae "amaethyddiaeth" ("*agriculture*") yn cynnwys—

(a) ffermio gwartheg godro;

(b) cynhyrchu unrhyw gynnyrch defnyddiadwy at ddibenion masnach neu fusnes neu unrhyw fenter arall (p'un a wneir hynny i wneud elw ai peidio);

(c) defnyddio tir fel tir pori, gweirglodd neu ddoldir;

(d) defnyddio tir fel perllan, tir helyg gwiail neu goetir;

(e) defnyddio tir fel gerddi marchnad neu blanhigfa;

ystyr "cyflogaeth" ("*employment*") yw bod yn gyflogedig o dan gontract gwasanaeth neu brentisiaeth a dylid dehongli "a gyflogir" ("*employed*") a "cyflogwr" ("*employer*") yn unol â hynny;

ystyr "cynnyrch defnyddiadwy" ("*consumable produce*") yw cynnyrch a dyfir i'w fwyta ac i'w yfed neu i'w ddefnyddio fel arall ar ôl iddo adael y tir lle cafodd ei dyfu;

ystyr "Deddf 1998" ("*1998 Act*") yw Deddf Isafswm Cyflog Cenedlaethol 1998 (p. 39);

mae "gorchymyn cyflogau amaethyddol ("*agricultural wages order*") i'w ddehongli yn unol ag adran 3 (ond gweler hefyd adran 12(3));

ystyr "gweithiwr amaethyddol" ("*agricultural worker*") yw person a gyflogir ym maes amaethyddiaeth yng Nghymru, p'un a yw'r holl waith yr ymgymerir ag ef yn rhinwedd y gyflogaeth honno yn cael ei gwneud yng Nghymru ai peidio;

mae i'r "isafswm cyflog cenedlaethol" ("*the national minimum wage*") yr ystyr a roddir iddo gan adran 10.

**19 Cychwyn**

Daw darpariaethau'r Ddeddf hon i rym ar y diwrnod y caiff y Ddeddf hon Gydsyniad Brenhinol.

**20 Enw byr**

Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014.